OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 3282 (Cy.285)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*8 Rhagfyr 2004*
Yn dod i rym - -	*20 Rhagfyr 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn gan arfer y pŵ er a roddwyd iddo gan adrannau 79H(1) a (2) a 104(4) o Ddeddf Plant 1989(**1**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw'r Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) 2004, a deuant i rym ar 20 Rhagfyr 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i bersonau sydd wedi'u cofrestru fel gwarchodwyr plant neu i ddarparu gofal dydd ar fangre berthnasol yng Nghymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant 1989 ac mae unrhyw gyfeiriadau at adrannau yn cyfeirio at adrannau'r Ddeddf honno;

mae i "gofal dydd" ("*day care*") yr un ystyr ag sydd i "day care" yn adran 79A(6);

mae i "gorchymyn costau" ("*costs order*") yr un ystyr ag sydd i "costs order" yn Rheoliadau Amddiffyn Plant ac Oedolion Hawdd eu Niweidio a Thribiwnlys Safonau Gofal 2002(**2**);

ystyr "person cofrestredig" ("*registered person*") yw person sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant neu sy'n darparu gofal dydd ac sydd wedi'i gofrestru o dan adran 79F;

ystyr "swyddfa briodol" ("*appropriate office*") yw—

(**1**) 1989 p.41; mewnosodwyd adran 79H gan adran 79 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14).
(**2**) O.S. 2002/816.

(a) os pennwyd swyddfa o dan baragraff (2) mewn perthynas ag unrhyw berson cofrestredig, y swyddfa honno;

(b) unrhyw un o swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol mewn unrhyw achos arall; ac

ystyr "y Tribiwnlys" ("*Rheoliadau Ariannol*") yw'r tribiwnlys a sefydlwyd gan adran 9 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999(**3**).

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol bennu swyddfa a reolir ganddo yn swyddfa briodol mewn perthynas â pherson cofrestredig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at —

(a) rheoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn sy'n dwyn y Rhif hwnnw;

(b) paragraff â Rhif mewn rheoliad yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw;

(c) is-baragraff â Rhif neu lythyren mewn paragraff yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y Rhif hwnnw neu'r llythyren honno yn y paragraff hwnnw.

Y pŵ er i atal cofrestriad dros dro

3.—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â rheoliadau 4, 5, 6 a 7, atal dros dro gofrestriad unrhyw berson sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant neu sy'n darparu gofal dydd os oes sail resymol i'r Cynulliad Cenedlaethol gredu y byddai neu y gallai parhau â'r ddarpariaeth gwarchod plant neu ofal dydd wneud un neu fwy o'r plant y darperir y gofal ar eu cyfer, neu y gellid darparu'r gofal ar eu cyfer, yn agored i risg o niwed, ac mai at un o'r dibenion a nodir ym mharagraff (2) y gwneir yr atal dros dro.

(2) Dibenion yr atal dros dro yw—

(a) rhoi amser i ymchwilio i'r amgylchiadau sy'n sail i gred y Cynulliad Cenedlaethol; a

(b) rhoi amser i gymryd camau er mwyn lleihau neu ddileu'r risg o niwed.

Cyfnod yr atal dros dro

4.—(1) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn atal cofrestriad unrhyw berson dros dro o dan reoliad 3, bydd cyfnod yr atal dros dro yn dechrau ac yn gorffen ar y dyddiadau hynny a bennir yn yr hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi i'r person cofrestredig o dan reoliad 5.

(2) Ni chaniateir i'r dyddiad a bennir fel y dyddiad y daw'r cyfnod atal dros dro i ben fod yn fwy na 6 wythnos ar ôl dyddiad dechrau'r cyfnod.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), nid yw'r ffaith bod cofrestriad unrhyw berson wedi'i atal dros dro ar unrhyw adeg yn rhwystro'r Cynulliad Cenedlaethol rhag atal dros dro gofrestriad y person hwnnw ymhellach ar unrhyw adeg, boed hynny yn ystod cyfnod blaenorol o atal dros dro neu ar ôl iddo ddod i ben, a boed hynny ar yr un sail neu ar sail wahanol.

(4) Ac eithrio pan fo paragraff (5) yn gymwys, ni chaiff y Cynulliad Cenedlaethol arfer ei bŵ er i atal dros dro gofrestriad person yn y fath fodd fel y byddai effaith hynny yn golygu bod cofrestriad y person hwnnw wedi'i atal dros dro am gyfnod a fyddai'n hwy na chyfanswm o 12 wythnos o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis, gan gynnwys unrhyw gyfnod arall pan yr ataliwyd cofrestriad y person hwnnw dros dro, boed hynny ar yr un sail neu ar sail sy'n sylweddol yr un fath.

(5) Bydd y paragraff hwn yn gymwys os oes un neu fwy o'r amgylchiadau a ganlyn yn gymwys ar yr adeg pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn arfer ei bŵ er i atal dros dro gofrestriad person:

(a) ni chyflawnwyd yr archwiliad y cyfeirir ato yn rheoliad 3(2)(a) eto;

(b) ni chymerwyd yr holl gamau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3(2)(b) eto; neu

(**3**) 1999 p.14.